# ASESIAD EFFAITH INTEGREDIG LLYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **Teitl y cynnig:** | **Diwygiadau i Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ynglŷn â rheoleiddio ac arolygu gwasanaethau** |
| **Swyddog(ion) sy'n llenwi'r Asesiad Effaith Integredig (enw(au) ac enw'r tîm):** | **Y Gangen Polisïau Rheoleiddio ac Arolygu** |
| **Adran:** | **Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol** |
| **Pennaeth yr Is-adran/Yr Uwch-swyddog Cyfrifol (enw):** | **Taryn Stephens** |
| **Ysgrifennydd Cabinet/Gweinidog cyfrifol:** | **Y Gweinidog Gofal Cymdeithasol** |
| **Dyddiad Dechrau:** | **Hydref 2022** |

## ADRAN 1. PA GAMAU GWEITHREDU Y MAE LLYWODRAETH CYMRU YN EU HYSTYRIED A PHAM?

**Y cefndir**

Sefydlodd Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ("Deddf 2016") fframwaith rheoleiddio newydd ar gyfer gwasanaethau gofal a chymorth ("gwasanaethau rheoleiddiedig") yng Nghymru, gan ddisodli Deddf Safonau Gofal 2000. Diwygiodd hefyd y broses ar gyfer rheoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol.

Mae'r asesiad effaith hwn yn ymwneud â newidiadau i Ran 1 o Ddeddf 2016, sy'n nodi'r gyfundrefn reoleiddio ar gyfer gwasanaethau rheoleiddiedig, darparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol dynodedig. Y weithdrefn ar gyfer gwneud y newidiadau hyn yw drwy Fil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru).

Gwnaeth Deddf 2016 y system o reoleiddio ac arolygu gwasanaethau yn gydnaws ag ethos Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, gan roi mwy o bwyslais ar lesiant a chanlyniadau personol pobl. Cafodd system reoleiddio yn seiliedig ar wasanaethau ei chreu gan Ddeddf 2016 a symudwyd oddi wrth ddull gweithredu yn seiliedig ar gydymffurfio â safonau gofynnol i ddull gweithredu ar gyfer gwella'n barhaus, a fyddai'n gallu adlewyrchu ansawdd gwasanaethau. Llwyddodd y Ddeddf i ailgydbwyso atebolrwydd o fewn y system er mwyn sicrhau bod unigolion priodol yn cael eu dal yn gyfrifol yn gyfreithiol. Ei nod hefyd oedd rhoi mwy o dryloywder a chymaroldeb ar draws gwasanaethau yng Nghymru.

Mae 8 o wasanaethau rheoleiddiedig wedi'u diffinio yn Atodlen 1 i Ddeddf 2016:

- Gwasanaethau cartrefi gofal (oedolion a phlant)
- Gwasanaethau cymorth cartref
- Gwasanaethau lleoli oedolion
- Gwasanaethau llety diogel
- Gwasanaethau maethu
- Gwasanaethau mabwysiadu
- Gwasanaethau canolfannau preswyl i deuluoedd
- Gwasanaethau eirioli

Rydym wedi cyflwyno rheoliadau i ragnodi Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig yn wasanaeth rheoleiddiedig o dan Ddeddf 2016 ac i gyflawni'r fframwaith rheoleiddio. O fis Ebrill 2024 ymlaen, bydd y Rheoliadau a'r canllawiau statudol yn gymwys i Wasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig unwaith y bydd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) wedi penderfynu ar eu ceisiadau i gofrestru.

Un o ganghennau Llywodraeth Cymru yw AGC sy'n gweithredu ar wahân. Mae'n gyfrifol am gofrestru, arolygu a chymryd camau i wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau gofal rheoleiddiedig yng Nghymru. Pan fo Deddf 2016 yn gosod gofynion ar Weinidogion Cymru, yn ymarferol, AGC sy'n cyflawni'r rhain.

Wrth i'r gwaith o sefydlu'r fframwaith rheoleiddio o dan Ddeddf 2016 fynd rhagddo, mae Llywodraeth Cymru - mewn cydweithrediad ag AGC - wedi nodi sawl maes i'w gwella er mwyn ei galluogi i weithredu yn fwy effeithiol. Mae'r newidiadau arfaethedig yn fodd i ddatrys anghysondebau, cyflawni'r bwriad polisi gwreiddiol, a chynorthwyo AGC i gyflawni ei phrosesau a'i gweithgareddau rheoleiddio.

Mae'r diwygiadau arfaethedig wedi'u rhannu i dri chategori:

1) Nodi gwasanaethau sy'n gweithredu heb gofrestru
2) Cyhoeddi datganiadau blynyddol
3) Canslo cofrestriad

**Ymgynghori**

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 17 Awst a 7 Tachwedd 2022 i geisio barn ar y newidiadau arfaethedig fel yr amlinellir ym Mhennod 4 o'r ddogfen ymgynghori: https://www.llyw.cymru/newidiadau-arfaethedig-ir-ddeddfwriaeth-ar-ofal-cymdeithasol-gofal-iechyd-parhaus-y-gig

Amlinellir isod grynodeb o'r effeithiau, y costau a'r arbedion ar gyfer pob un o'r categorïau, yn ogystal ag ystyriaeth gyffredinol o'r pum ffordd o weithio a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sef:

- ystyried yr hirdymor
- helpu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu
- cymryd ymagwedd integredig
- cymryd ymagwedd o gydlafurio, ac
- ystyried a chynnwys pobl o bob oed ac amrywiaeth.

**<u>Categori 1: Nodi gwasanaethau sy'n gweithredu heb gofrestru</u>**

Rhan o rôl yr arolygiaeth yw canfod a chymryd camau gorfodi priodol yn erbyn y rhai y mae'n credu eu bod yn gweithredu gwasanaeth rheoleiddiedig heb y cofrestriad gofynnol i wneud hynny. I wneud hyn, rhaid i AGC gael y pŵer i'w gwneud yn ofynnol i wybodaeth allweddol gael ei darparu gan bobl y mae ganddi achos rhesymol dros gredu eu bod yn gweithredu gwasanaeth rheoleiddiedig heb gofrestru.

Er ei bod yn drosedd o dan adran 5 o Ddeddf 2016 i ddarparu gwasanaeth rheoleiddiedig heb gofrestru, nid oes eglurder yn Neddf 2016 o ran pwerau'r arolygiaeth i ofyn am wybodaeth gan unigolion y mae ganddi achos rhesymol dros gredu eu bod yn gweithredu heb gofrestru.

<u>Pŵer i'w gwneud yn ofynnol i wybodaeth gael ei darparu</u>

Mae adran 32 o Ddeddf 2016 yn cynnwys pŵer i'w gwneud yn ofynnol i wybodaeth, sy'n ymwneud â chofrestriad darparwyr gwasanaethau, gael ei darparu gan "bersonau perthnasol". Mae'r "personau perthnasol" fel a ganlyn:

- darparwyr gwasanaethau,

- unigolion cyfrifol,
- person a gyflogir gan ddarparwr gwasanaeth neu sydd fel arall yn gweithio i ddarparwr gwasanaeth, ac
- unrhyw berson sydd wedi dal unrhyw un o’r swyddi hynny.

Nid yw’r rhestr o “bersonau perthnasol” yn cynnwys pobl sy’n gweithredu gwasanaeth rheoleiddiedig heb gofrestru. Gallai'r hepgoriad hwn ei gwneud yn anos i AGC gael gwybodaeth allweddol gan unigolion sy'n gweithredu gwasanaeth rheoleiddiedig heb gofrestru.

Cafodd y pŵer i’w gwneud yn ofynnol i wybodaeth gael ei darparu gan y rhai sy’n darparu gwasanaeth rheoleiddiedig heb gofrestru ei nodi’n glir o dan y ddeddfwriaeth flaenorol, sef Deddf Safonau Gofal 2000 ("Deddf 2000"). Mae adran 31(1) o Ddeddf 2000 yn nodi:

*The registration authority may at any time require a person who carries on or manages an establishment or agency to provide it with any information relating to the establishment or agency which the registration authority considers it necessary or expedient to have for the purposes of its functions under this Part.*

O dan Ddeddf 2000, mae’r defnydd o’r geiriau “establishment or agency” (sefydliad neu asiantaeth) yn ymwneud yn fwy cyffredinol â’r gwasanaeth a’r gweithgareddau sy’n cael eu cyflawni gan y gwasanaeth, yn hytrach na'i statws o fod wedi'i gofrestru â'r arolygiaeth.

Rydym yn bwriadu diwygio Deddf 2016 i roi pŵer i Weinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i bersonau sy’n darparu gwasanaeth rheoleiddiedig heb gofrestru i ddarparu gwybodaeth o dan adran 32 o Ddeddf 2016.

Bydd hyn yn ailsefydlu'r sefyllfa flaenorol o dan Ddeddf 2000.

<u>Troseddau</u>

O dan adran 49 o Ddeddf 2016, mae'n drosedd i berson fethu â chydymffurfio â gofyniad a osodir arno gan Weinidogion Cymru o dan adran 32(1) o Ddeddf 2016. Bydd y drosedd hon yn gymwys mewn cysylltiad â’r diwygiad arfaethedig. Gallai cosbau am euogfarn fod yn ddirwy neu hyd at 2 flynedd o garchar, neu’r ddau.

Mae asesiad llawn o’r effaith ar gyfiawnder wedi ei gwblhau.

***Effaith***

Yn unol â'r geiriad yn Neddf 2000, gweler bod cynsail amlwg ar gyfer y pŵer hwn. Yn y sector gofal cymdeithasol, deellir yn eang mai elfen hollbwysig o rôl yr arolygiaeth yw ymchwilio i wasanaethau sy’n gweithredu heb gofrestru. Ar lefel weithredol felly, mae AGC yn parhau i ofyn am wybodaeth gan wasanaethau y credir eu bod yn gweithredu heb gofrestru, gan ddibynnu ar ddehongliad pwrpasol y ddarpariaeth (cymhwyso’r gyfraith mewn ffordd sy’n cyd-fynd â diben neu fwriad sylfaenol y ddeddfwriaeth).

Mae'r tabl isod yn nodi nifer yr ymchwiliadau y mae AGC wedi'u cynnal rhwng mis Ionawr 2018 a mis Mai 2023 mewn perthynas â gwasanaethau sy'n gweithredu heb gofrestru, yn ôl math o wasanaeth. Mae AGC wedi nodi bod arolygwyr wedi gofyn am wybodaeth gan y gwasanaethau hyn ym mhob achos.

| **Ymchwiliadau gan AGC i wasanaethau sy'n gweithredu heb gofrestru** | |
|---|---|
| **Math o wasanaeth** | **Nifer yr ymchwiliadau gan AGC rhwng 2018 a mis Mai 2023 i wasanaethau sy'n gweithredu heb gofrestru** |
| Gwasanaeth Lleoli Oedolion | 17 |
| Gwasanaeth Eirioli | 6 |
| Gwasanaeth Cartref Gofal - Oedolion | 88 |
| Gwasanaeth Cartref Gofal - Oedolion a Phlant | 10 |
| Gwasanaeth Cartref Gofal - Plant | 382 |
| Gwasanaeth Cymorth Cartref | 222 |
| Gwasanaeth Maethu | 5 |
| Canolfan Breswyl i Deuluoedd | 2 |
| Gwasanaeth Llety Diogel | 8 |
| **Cyfanswm** | **740** |

Mae'r data diweddaraf gan AGC yn dangos bod 161 o ymchwiliadau i wasanaethau sy'n gweithredu heb gofrestru wedi'u cynnal rhwng mis Ionawr a mis Mehefin 2023.

Er bod AGC yn gofyn am wybodaeth gan unigolion y credir eu bod yn gweithredu gwasanaeth rheoleiddiedig heb gofrestru, gallai'r ffaith nad yw Deddf 2016 yn cynnwys pŵer penodol i'w gwneud yn ofynnol i wybodaeth gael ei darparu yn yr amgylchiadau hyn atal AGC rhag cyflawni ei swyddogaethau, a/neu ei rhoi mewn sefyllfa o fod yn agored i her gyfreithiol.

Bydd diwygio Deddf 2016 yn adfer y sefyllfa flaenorol o dan Ddeddf 2000. Bydd yn rhoi eglurder ynghylch pwerau cyfreithiol Gweinidogion Cymru i sefydlu a yw unigolion yn gweithredu gwasanaeth heb gofrestru. Bydd hyn yn lleihau'r risg o her gyfreithiol ac yn ategu'r nod o ddiogelu unigolion sy'n agored i niwed a allai wynebu risg yn sgil defnyddio gwasanaeth nad oes ganddo'r oruchwyliaeth neu'r mesurau angenrheidiol ar waith i sicrhau eu diogelwch a'u llesiant.

Mae'r diwygiad hwn yn ymdrin â dwy o'r pum ffordd o weithio a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan ddatrys y mater yn yr hirdymor ac atal y broblem rhag gwaethygu.

Ni fydd unrhyw effaith ar ddarparwyr ac unigolion cyfrifol presennol gwasanaethau sydd eisoes wedi cofrestru. Nid ydym o'r farn bod unrhyw effeithiau negyddol yn gysylltiedig â'r cynnig hwn.

### *Risgiau*

Yn sgil tynnu sylw at yr amryfusedd hwn yn Neddf 2016, a allai fod wedi mynd heb sylw fel arall, mae'n bosibl bod risg fach iawn y gallai hynny arwain at bobl yn peidio â chydweithredu â cheisiadau AGC am wybodaeth cyn i'r diwygiad ddod i rym.

### *Costau ac arbedion*

Nid ydym o'r farn bod unrhyw gostau neu arbedion uniongyrchol yn gysylltiedig â'r cynnig hwn gan fod yr arolygiaeth eisoes yn cyflawni'r swyddogaeth hon yn ymarferol.

## Categori 2: Cyhoeddi datganiadau blynyddol

Mae adran 10 o Ddeddf 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau gyflwyno datganiad blynyddol i Weinidogion Cymru (AGC) ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol y mae'r darparwr wedi'i gofrestru. Rhaid i'r datganiad blynyddol gynnwys gwybodaeth allweddol am weithrediad y gwasanaeth, yn ogystal â datganiad cydymffurfio. Diben y datganiad blynyddol yw darparu gwybodaeth dryloyw a chymharol i'r cyhoedd am wasanaethau rheoleiddiedig yng Nghymru.

Amlinellir manylion yr wybodaeth sydd i'w chynnwys mewn datganiad blynyddol ar wyneb y Ddeddf ac yn Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Datganiadau Blynyddol) (Cymru) 2017, fel y'u diwygiwyd. Mae'r gofynion yn cynnwys gwybodaeth am y gwasanaeth a ddarperir, yr unigolyn cyfrifol, gwybodaeth am staffio (megis nifer y staff, trosiant a hyfforddiant) a gwybodaeth am gyfleusterau o fewn gwasanaethau sy'n darparu llety.

Amlinellir isod y gofynion llawn o ran gwybodaeth:

*Gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau yn adran 10 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016*

10 Datganiad blynyddol

(2) Rhaid i ddatganiad blynyddol gynnwys—
(a) yr wybodaeth a ganlyn—

(i) y gwasanaethau rheoleiddiedig y mae'r darparwr gwasanaeth wedi ei gofrestru i'w darparu;

(ii) y mannau y mae'r darparwr wedi ei gofrestru i ddarparu'r gwasanaethau hynny ynddynt, ohonynt neu mewn perthynas â hwy;

(iii) enw'r unigolyn cyfrifol sydd wedi ei gofrestru mewn cysylltiad â phob man o'r fath;

(iv) y dyddiad y cymerodd cofrestriad y darparwr effaith mewn cysylltiad â phob gwasanaeth rheoleiddiedig a phob man o'r fath;

(v) manylion unrhyw amodau eraill a osodir ar gofrestriad y darparwr gwasanaeth;

(vi) manylion am nifer y personau y darparodd y darparwr ofal a chymorth iddynt yn ystod y flwyddyn wrth ddarparu pob gwasanaeth o’r fath;

(vii) unrhyw wybodaeth a ragnodir am hyfforddiant a gynigir neu a gyflawnir mewn perthynas â phob gwasanaeth o’r fath;

(viii) unrhyw wybodaeth am gynllunio’r gweithlu a ragnodir;

(ix) unrhyw wybodaeth arall a ragnodir, a

(b) datganiad sy’n nodi sut y mae’r darparwr gwasanaeth wedi cydymffurfio ag unrhyw reoliadau a wneir o dan adran 27(1) sy’n pennu safon y gofal a’r cymorth y mae rhaid i ddarparwr gwasanaeth ei darparu (gweler adran 27(2)).

*ATODLEN i'r Rheoliadau – gwybodaeth i’w chynnwys mewn datganiad blynyddol*

<u>Gwybodaeth gyffredinol</u>

1. Manylion cyswllt.

<u>Gwybodaeth am yr unigolyn cyfrifol</u>

2. Enw’r unigolyn cyfrifol.

<u>Gwybodaeth am staffio</u>

3. Enw’r rheolwr.

4. Cyfanswm nifer y swyddi cyfwerth ag amser llawn (gan gynnwys swyddi sydd wedi eu llenwi a swyddi gwag).

5. Nifer y swyddi sydd wedi eu llenwi a’r swyddi gwag ym mhob un o’r categorïau a ganlyn—

(a) rheolwr;
(b) dirprwy Reolwr;
(c) staff eraill sy'n goruchwylio;
(d) staff gofal nyrsio;
(e) nyrsys cofrestredig;
(f) uwch staff gofal cymdeithasol sy’n darparu gofal uniongyrchol;
(g) staff gofal cymdeithasol eraill sy’n darparu gofal uniongyrchol;
(h) staff domestig;
(i) staff arlwyo;
(j) mathau eraill o staff nad ydynt wedi eu rhestru uchod.

6. Os yw nifer y staff a gyflogir yn cynnwys staff o fath nad yw wedi ei restru ym mharagraff 5(a) i (i), manylion y math neu’r mathau o’r staff hynny.

7. Cyfradd trosiant staff.

8. Y mathau o drefniadau contractiol y mae staff wedi eu cyflogi arnynt a nifer y staff a gyflogir ar bob math o drefniant contractiol ym mhob un o'r categorïau a restrir ym mharagraff 5.

9. Cymwysterau'r staff a gyflogir ym mhob un o'r categorïau a restrir ym mharagraff 5.

10. Manylion unrhyw hyfforddiant perthnasol y mae staff a gyflogir ym mhob un o'r categorïau a restrir ym mharagraff 5 wedi ei gyflawni yn ystod y cyfnod y maent wedi eu cyflogi ynddo gan y darparwr gwasanaeth.

Gwybodaeth am y gwasanaeth a ddarperir

11. Manylion y raddfa ffioedd sy'n daladwy gan ddefnyddwyr gwasanaeth yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf.

12. Manylion yr ieithoedd a ddefnyddir i ddarparu'r gwasanaeth.

13. Manylion unrhyw ddulliau cyfathrebu nad ydynt yn rhai llafar a ddefnyddir.

14. Cyfanswm nifer y cwynion ffurfiol a wnaed yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf a chyfran y cwynion hynny na chawsant eu cadarnhau, a gafodd eu cadarnhau'n rhannol ac a gafodd eu cadarnhau.

15. Manylion y trefniadau a wneir ar gyfer ymgynghori â defnyddwyr gwasanaeth ynghylch gweithrediad y gwasanaeth rheoleiddiedig.

Gwybodaeth ychwanegol pan fo'r gwasanaeth yn cynnwys y ddarpariaeth o lety

16. Patrymau sifft nodweddiadol y staff a gyflogir, gan ddangos nifer y staff ym mhob un o'r categorïau a restrir ym mharagraff 5(d), (e), (f) ac (g) sydd ar ddyletswydd yn ystod pob sifft.

17. Nifer yr ystafelloedd gwely sengl ac ystafelloedd gwely a rennir.

18. Nifer yr ystafelloedd gwely a chanddynt gyfleusterau en suite.

19. Nifer y lolfeydd/ystafelloedd bwyta cymunedol.

20. Nifer yr ystafelloedd ymolchi a chanddynt gyfleusterau cymorth ymolchi.

21. Manylion unrhyw le yn yr awyr agored y mae gan y preswylwyr fynediad iddo.

22. Manylion unrhyw gyfleusterau eraill y mae gan y preswylwyr fynediad atynt.

Rydym wedi oedi'r broses o gyflwyno datganiadau blynyddol. Yn gyntaf, roedd hyn yn sgil rhoi Deddf 2016 ar waith fesul cam er mwyn cymhwyso'r gofyniad yn gyson ar draws yr holl wasanaethau rheoleiddiedig. Wedi hynny, cafodd y gwaith ei oedi ymhellach er mwyn lliniaru'r pwysau ar y sector yn ystod pandemig COVID-19. Ym mis Mai 2022, diwygiwyd Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Datganiadau Blynyddol) (Cymru) 2017 i leihau cynnwys datganiadau blynyddol ar gyfer y blynyddoedd 2018-19, 2019-20, 2020-21 a

2021-22, yn ogystal ag oedi'r dyddiad ar gyfer cyflwyno'r datganiadau hyn hyd nes 31 Hydref 2022.

Mae'r Datganiadau Blynyddol ar gyfer 2022-23 ac wedi hynny yn cynnwys y rhestr lawn o wybodaeth a nodir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau. Mae'r datganiadau blynyddol ar gyfer 2022-23 wedi'u cyhoeddi ar gyfeiriadur gwasanaethau AGC yn: https://www.arolygiaethgofal.cymru/service-directory.

Mae adran 10(5) o Ddeddf 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru (AGC) gyhoeddi datganiadau blynyddol. Mae'r gofyniad hwn yn arwain, yn anfwriadol, at sefyllfa lle y gallai Gweinidogion Cymru fod yn atebol am faterion diogelu data a difenwi yn sgil unrhyw beth sydd wedi'u cynnwys yn y datganiadau. Er nad yw Deddf 2016 na'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau gyflwyno gwybodaeth bersonol am unigolion sy'n defnyddio'u gwasanaethau, mae opsiwn neges destun am ddim y ffurflen ar-lein yn golygu y gallai darparwyr, yn anfwriadol, gynnwys gwybodaeth bersonol neu wybodaeth arall nad yw efallai'n briodol ei chyhoeddi, megis iaith amhriodol neu wybodaeth bersonol adnabyddadwy.

Oherwydd bod y gofyniad i gyhoeddi datganiadau blynyddol yn cael ei osod ar Weinidogion Cymru (AGC), maent ar hyn o bryd yn atebol am gynnwys y datganiadau blynyddol. Serch hynny, y bwriad ers y dechrau yw i ddarparwyr gwasanaethau fod yn gyfrifol am yr wybodaeth yn eu datganiadau blynyddol. Fel y nodir ym mharagraff 3.51 o Femorandwm Esboniadol Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru):

*Byddai'n rhaid i'r adroddiadau gael eu llofnodi a'u cyflwyno gan y darparwr gwasanaeth cofrestredig, a fyddai'n atebol yn gyffredinol am gynnwys yr adroddiad hwn.*

Rydym yn cynnig diwygio Deddf 2016 er mwyn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau gyhoeddi datganiadau blynyddol ar eu gwefannau, a bod copïau ohonynt ar gael ar gais, gan sicrhau eu bod yn cadw perchnogaeth dros yr wybodaeth sydd wedi'i chynnwys mewn datganiad. Rydym o'r farn bod hyn yn rhesymol ac yn briodol.

<u>Troseddau</u>

Mae'n drosedd o dan adran 48 o Ddeddf 2016 i ddarparwr gwasanaeth fethu â chyflwyno datganiad blynyddol i Weinidogion Cymru (AGC).

O dan adran 52 o Ddeddf 2016, caniateir i Weinidogion Cymru osod hysbysiad cosb os ydynt wedi'u bodloni bod y darparwr gwasanaeth wedi cyflawni trosedd ragnodedig. Mae hyn yn cynnwys methu â chyflwyno datganiad blynyddol. Mae Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2019 yn nodi mai'r gosb sydd i'w thalu yw swm sy'n cyfateb i lefel 4 ar y raddfa safonol (mae hyn yn cyfateb i £2,500).

Mae Gweinidogion Cymru felly o'r farn ei bod yn ddoeth creu trosedd o fethu â chyhoeddi datganiad blynyddol sy'n gyfwerth â'r drosedd o fethu â chyflwyno datganiad blynyddol o dan adran 48. Byddai'r gosb am y drosedd newydd yr un fath â'r gosb am y drosedd bresennol. Nid yw'n fwriad gwneud methu â darparu copi o ddatganiad blynyddol ar gais yn drosedd.

### *Effaith*

Bydd yr opsiwn hwn yn cynnal y bwriad polisi gwreiddiol o ddarparu gwybodaeth wrthrychol a chymharol am wasanaethau rheoleiddiedig i ddinasyddion.

Bydd gosod y gofyniad i gyhoeddi datganiadau blynyddol ar ddarparwyr gwasanaethau yn arbed amser i'r arolygiaeth gan na fydd angen defnyddio staff AGC i wirio'r datganiadau am achosion posibl o dorri diogelwch data neu wybodaeth arall nad yw efallai'n briodol ei chyhoeddi. Bydd hyn yn lleihau'r baich ar AGC yn sylweddol, gan ei galluogi i ganolbwyntio ar ei rôl graidd o reoleiddio gwasanaethau.

Bydd diwygio Deddf 2016 hefyd yn lliniaru goblygiadau achosion o dorri diogelwch data, pe bai AGC, yn anfwriadol, yn cyhoeddi datganiadau blynyddol sy'n cynnwys gwybodaeth bersonol adnabyddadwy.

Rydym wedi cyfrifo'r gost i AGC o ran amser gwirio datganiadau blynyddol. Ar gyfer 2023-24, cafodd AGC 945 o ddatganiadau blynyddol. Defnyddiodd AGC ddeallusrwydd artiffisial i ganfod y rhai yr oedd angen eu harchwilio ymhellach. Dangosodd y system fod angen gwirio 455 o ddatganiadau blynyddol. Anfonwyd y datganiadau hyn yn ôl at y darparwr i'w cywiro cyn eu hailgyflwyno. Bu'n rhaid gwirio rhai datganiadau blynyddol sawl gwaith pan nad oedd darparwyr wedi llwyddo i ymdrin yn ddigonol â'r materion a godwyd. Arweiniodd hyn at gwblhau cyfanswm o 766 o wiriadau, a gymerodd oddeutu 400 o oriau o waith.

Pe bai AGC, yn anfwriadol, yn cyhoeddi datganiadau blynyddol sy'n cynnwys gwybodaeth bersonol, megis enwau pobl sy'n byw mewn gwasanaeth rheoleiddiedig, mae'n bosibl y byddent yn torri Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data. Pe bai achos o dorri cyfreithiau diogelu data, gallai'r gost i Lywodraeth Cymru fod yn sylweddol iawn gan fod gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth y pŵer i ddyroddi dirwyon i sefydliadau sy'n torri cyfreithiau diogelu data. Byddai unrhyw ddirwy yn seiliedig ar drosiant Llywodraeth Cymru a gallai'r ddirwy uchaf fod yn £0.5 biliwn. Fodd bynnag, oherwydd y ffactorau lliniaru y mae AGC wedi'u rhoi ar waith, gan gynnwys gofyn i ddarparwyr beidio â chynnwys gwybodaeth bersonol yn eu datganiadau blynyddol a gwirio bob un ohonynt, mae dirwy o'r maint hwn yn annhebygol iawn.

O ran unrhyw effaith bosibl ar ansawdd y datganiadau blynyddol yn sgil y diwygiad hwn, nid oedd erioed yn fwriad i AGC wirio cywirdeb datganiadau blynyddol. Rydym wedi ei gwneud yn glir ers y dechrau mai darparwyr sy'n gyfrifol am gynnwys y datganiadau blynyddol. Mae'r risg o ddarparwyr gwasanaeth yn cyflwyno gwybodaeth ffug mewn datganiadau blynyddol yn cael ei lliniaru gan adran 47 o Ddeddf 2016 sy'n ei gwneud yn drosedd i berson ddatgan unrhyw beth yn y datganiad blynyddol y mae'n gwybod ei fod yn wirioneddol gamarweiniol.

Nid ydym o'r farn felly y bydd ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gyhoeddi eu datganiadau blynyddol eu hunain yn cael unrhyw effaith ar eu hansawdd. Gall arolygwyr ystyried datganiad blynyddol darparwr gwasanaeth yn rhan o'r broses arolygu, ochr yn ochr â gwybodaeth arall gan y darparwr gwasanaeth.

Nid yw Deddf 2016 na Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Datganiadau Blynyddol) (Cymru) 2017, fel y'u diwygiwyd, yn cynnwys amserlen ar gyfer cyhoeddi datganiadau blynyddol. Rhagwelir y bydd gosod y gofyniad ar ddarparwyr gwasanaethau heb bennu amserlen yn arwain at anghysondebau o ran amseroedd cyhoeddi ar draws gwasanaethau. Bydd y diwygiad yn cynnwys pŵer gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru ragnodi terfyn amser i'r darparwr gwasanaeth gyhoeddi datganiadau blynyddol.

### *Costau*

Disgwylir i ddarparwyr gwasanaethau gyhoeddi eu datganiadau blynyddol ar eu gwefannau eu hunain. Er bod darparwyr gwasanaethau eisoes yn ymwneud ag AGC ar-lein (er enghraifft, er mwyn cyflwyno'u datganiadau blynyddol a chofrestru'u gwasanaethau), ceir risg na fydd gan bob darparwr ei wefan ei hun.

Rydym yn ymwybodol bod gan o leiaf 66% o ddarparwyr wefan eu hunain eisoes gan eu bod wedi cynnwys cyfeiriadau'r gwefannau yn eu datganiadau blynyddol ar gyfer 2023-24. Fodd bynnag, gan mai data gwirfoddol yw hwn, gallai'r gwir ganran o ddarparwyr sydd â gwefan eu hunain fod yn uwch oherwydd efallai eu bod wedi dewis peidio â chynnwys yr wybodaeth hon yn eu datganiad blynyddol.

Mae costau datblygu a chynnal gwefannau yn amrywio'n eang ac yn seiliedig ar ystod o ffactorau, gan gynnwys cymhlethdod y wefan, ei nodweddion, ei harddull a'i swyddogaethau. Gellir creu gwefan sylfaenol am ddim, heb unrhyw sgiliau datblygu'r we, drwy ddefnyddio adnodd datblygu gwefannau sy'n rhoi templed i ddefnyddwyr ychwanegu manylion am eu gwasanaethau. Bydd rhai adnoddau datblygu gwefannau yn cynnig opsiwn tanysgrifio am gost fach er mwyn cael nodweddion ychwanegol a dileu eu baneri hysbysebu. Mae gwefan fwy soffistigedig sydd wedi'i dylunio gan ddylunydd gwe, ac iddi nodweddion pwrpasol, gwell ymarferoldeb a pheiriant chwilio mwy effeithiol, yn debygol o gostio miloedd o bunnoedd.

Ar gyfer cyhoeddi datganiad blynyddol, rydym o'r farn y byddai gwefan sylfaenol yn ddigonol ac y byddai'r manteision ehangach i ddarparwyr yn sgil cael gwefan i hyrwyddo eu gwasanaethau yn uwch o lawer na'r costau.

### *Arbedion*

Yn sgil gosod y gofyniad i gyhoeddi datganiadau blynyddol ar ddarparwyr gwasanaethau, ni fydd angen i staff AGC wirio'r datganiadau am achosion posibl o dorri diogelwch data neu wybodaeth arall nad yw efallai'n briodol ei chyhoeddi. Bydd hyn yn lleihau'r baich ar yr arolygiaeth yn sylweddol, gan ei galluogi i ganolbwyntio ar ei rôl graidd o arolygu gwasanaethau.

## <u>Categori 3: Canslo cofrestriad</u>

*Canslo cofrestriad heb gais: gweithdrefnau hysbysu*

Mae Deddf 2016 yn darparu adnoddau statudol i helpu AGC â'i phrosesau gwella a gorfodi.

Yn unol ag adran 15 o Ddeddf 2016, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru, AGC yn ymarferol, gydymffurfio â'r weithdrefn hysbysiadau gwella (adran 16 o Ddeddf 2016) cyn canslo cofrestriad darparwr gwasanaeth heb gais.

Mae'r hysbysiad gwella yn pennu'r camau arfaethedig ac ar ba sail y bydd camau o'r fath yn cael eu cymryd. Mae'n manylu ar y camau y mae rhaid i'r darparwr eu cymryd, neu'r wybodaeth y mae rhaid i'r darparwr ei darparu, o fewn terfyn amser penodedig, er mwyn bodloni AGC na ddylid cymryd y camau gorfodi arfaethedig.

Mae hysbysiad o gynnig (adran 18 o Ddeddf 2016) yn adnodd gorfodi arall o dan Ddeddf 2016. Mae hysbysiad o gynnig yn hysbysiad sy'n rhoi gwybod i'r darparwr am benderfyniad y mae Gweinidogion Cymru (AGC) yn bwriadu ei wneud ac mae'n rhoi'r cyfle i'r darparwr gwasanaeth gyflwyno sylwadau ysgrifenedig o fewn terfyn amser penodol, nad yw'n llai nag 28 o ddiwrnodau. Gallai hysbysiad o'r fath hefyd roi cyfle i'r darparwr unioni'r sefyllfa drwy wneud pethau penodol o fewn terfyn amser er mwyn osgoi bod y camau yn cael eu cymryd.

Ceir amgylchiadau pan nad oes effeithiolrwydd na pherthnasedd ymarferol wrth ddilyn y weithdrefn hysbysiadau gwella gan fod y rhesymau dros ganslo i'r fath raddau na ellir cyflawni unrhyw welliant. Rydym yn cynnig diwygio adran 15 o Ddeddf 2016 i sicrhau mai'r weithdrefn hysbysu a ddefnyddir yw'r un sydd fwyaf priodol i'r amgylchiadau. Rydym yn bwriadu disodli'r gofyniad i ddilyn y weithdrefn hysbysiadau gwella â gofyniad i ddilyn y weithdrefn hysbysiad o gynnig pan fydd canslo cofrestriad ar sail un o'r canlynol:

- Nid yw'r darparwr gwasanaeth bellach yn darparu unrhyw wasanaethau rheoleiddiedig;
- Nid yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bellach fod y darparwr gwasanaeth yn berson addas a phriodol i fod yn ddarparwr gwasanaeth
- Mae'r darparwr gwasanaeth wedi ei gollfarnu o drosedd berthnasol, neu wedi cael rhybudd mewn cysylltiad â throsedd berthnasol, mewn cysylltiad â gwasanaeth rheoleiddiedig a ddarperir gan y darparwr gwasanaeth.

*Cais i ganslo cofrestriad darparwr gwasanaeth: yr wybodaeth sydd i'w darparu*

Nid yw Deddf 2016 yn cynnwys pŵer i Weinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i wybodaeth gael ei darparu gan ddarparwyr gwasanaethau sy'n gwneud cais i ganslo eu cofrestriad fel darparwr gwasanaeth o dan adran 14. Fodd bynnag, mae'n cynnwys pŵer gwneud rheoliadau i ganiatáu i Weinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i wybodaeth gael ei darparu gan ddarparwyr gwasanaethau sy'n ceisio amrywio eu cofrestriad fel darparwr gwasanaeth o dan adran 11. Mae'r pŵer gwneud rheoliadau o dan adran 11 wedi'i arfer ac mae'n galluogi Gweinidogion Cymru (AGC) i'w gwneud yn ofynnol i wybodaeth gael ei darparu gan ddarparwyr gwasanaeth sy'n ceisio amrywio eu cofrestriad o ran sut y byddant yn cydymffurfio â Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017 hyd nes y bydd y gwasanaeth yn dod i ben. Mae hyn yn creu gwahaniaeth amlwg.

Rydym yn bwriadu diwygio Deddf 2016 i roi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n rhagnodi y dylai cais i ganslo cofrestriad darparwyr gwasanaethau gynnwys gwybodaeth benodedig a'i fod yn cael ei wneud ar ffurf a ragnodir.

Troseddau

Nid ydym yn cynnig creu unrhyw droseddau yn sgil y diwygiadau hyn.

***Effaith, Costau ac Arbedion***

Mae'r newidiadau hyn yn creu mwy o gysondeb yn ymarferol ac yn cael gwared â chamau diangen mewn prosesau na ddaeth i'r amlwg nes i'r Ddeddf gael ei rhoi ar waith. Bydd y newidiadau hyn yn galluogi AGC i ymateb yn fanylach ac yn fwy hyblyg i amgylchiadau, gan arbed amser iddynt hwy ac i ddarparwyr. Mae'r cynigion yn ystyried yr hirdymor drwy sicrhau bod ein systemau ar gyfer rheoleiddio, arolygu a gwella gwasanaethau rheoleiddiedig yn hyblyg ac yn ymatebol.

**Hawliau Plant**

Wrth arfer eu swyddogaethau, mae'n ofynnol i Weinidogion roi sylw dyladwy i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae'r confensiwn yn diogelu hawliau dynol plant hyd at 18 oed.

Nodi gwasanaethau sy'n gweithredu heb gofrestru

Bydd y diwygiad hwn yn rhoi eglurder ynghylch pwerau cyfreithiol Gweinidogion Cymru (AGC) i sefydlu a yw unigolion yn gweithredu gwasanaeth heb gofrestru. Bydd hyn yn helpu i ddiogelu unigolion sy'n agored i niwed a allai wynebu risg yn sgil defnyddio gwasanaeth nad oes ganddo'r oruchwyliaeth neu'r mesurau angenrheidiol ar waith i sicrhau eu diogelwch a'u llesiant.

Fel y nodwyd yn adroddiad blynyddol AGC ar gyfer 2021-22, mae AGC wedi adrodd am gynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau am wasanaethau sy'n gweithredu heb gofrestru, o 10 atgyfeiriad yn 2019–20 i 74 o atgyfeiriadau yn 2021–22. Roedd y mwyafrif o'r rhain yn ymwneud â chartrefi gofal i blant. Mewn 43 o achosion, canfu AGC fod y gwasanaeth o dan sylw yn gweithredu fel cartref plant heb ei gofrestru. Roedd dros 90% o'r plant a oedd yn byw mewn gwasanaethau heb eu cofrestru o dan 16 oed.

Fel y nodwyd yn yr adroddiad:

*Nid yn unig y mae plant wedi cael eu hamddifadu o'r mesurau diogelu sy'n dod yn sgil gwasanaeth yn cael ei gofrestru, ond gall mynediad i addysg a chymorth gofal iechyd fod yn fwy problematig o fyw mewn lleoliad dros dro. Yn ogystal, bydd yn rhaid i'r rhan fwyaf o blant symud i wasanaeth arall ac, o ganlyniad, profi aflonyddwch pellach i'w bywydau.*

Mae'r cynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau yn destun pryder. Fodd bynnag, mae'r adroddiad yn dangos, er gwaethaf amwysedd cyfreithiol Deddf 2016, fod AGC wedi llwyddo i ofyn am wybodaeth gan unigolion mewn cysylltiad â gwasanaethau a allai fod yn gweithredu'n anghyfreithlon. Mae hyn yn cael ei ategu gan ddata uniongyrchol gan AGC, y cyfeirir ato yn gynharach yn y ddogfen.

Gan y bydd y newidiadau arfaethedig yn cryfhau arferion presennol, mae'n annhebygol y bydd gwahaniaeth sylweddol yn y ffordd y mae plant yn profi'r newidiadau hyn i Ddeddf 2016. Fodd bynnag, mae Asesiad llawn o'r Effaith ar Hawliau Plant wedi'i gynnal, gweler Atodiad A.

Cyhoeddi datganiadau blynyddol

Ni fydd effeithiau cadarnhaol na negyddol ar blant yn sgil gosod y gofyniad i gyhoeddi datganiadau blynyddol ar ddarparwyr gwasanaethau, gan y bydd yn parhau i gyflawni'r bwriad o roi gwybodaeth dryloyw a chymharol am wasanaethau rheoleiddiedig i bobl.

Canslo cofrestriad

Bydd y newidiadau a gynigir yn galluogi AGC i gyflawni ei rôl yn fwy effeithlon ac yn fwy hyblyg drwy gael gwared ar gamau diangen yn y prosesau gorfodi a gwella. Dylai hyn leihau'r baich gweinyddol ar arolygwyr, a'u galluogi i ganolbwyntio ar eu swyddogaethau craidd i wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau er budd llesiant pobl Cymru. Mewn rhai amgylchiadau, dylai'r newidiadau leihau'r baich gweinyddol ar ddarparwyr gwasanaethau.

Bydd y newid arfaethedig yn galluogi i reoliadau gael eu gwneud er mwyn sicrhau bod gan AGC y pwerau cyfreithiol angenrheidiol i'w gwneud yn ofynnol i wybodaeth gael ei darparu gan ddarparwr gwasanaeth sy'n gadael y farchnad ac yn canslo ei gofrestriad. Bydd y pŵer i bennu gofynion o ran gwybodaeth mewn rheoliadau yn galluogi'r rheoleiddiwr i sicrhau ei hun bod y gwasanaeth yn gallu parhau i gynnal diogelwch a llesiant yr unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Bydd rhagnodi'r gofynion o ran gwybodaeth mewn rheoliadau yn rhoi eglurder i ddarparwyr gwasanaethau am yr wybodaeth a ddisgwylir yn yr amgylchiadau hyn. Bydd hefyd yn cysoni'r dull gweithredu i ddarparwyr gwasanaethau sy'n gadael y farchnad â'r dull ar gyfer y rhai sy'n amrywio eu cofrestriad.

Ar y cyfan, dylai'r newidiadau hyn gael effaith fach gadarnhaol ar blant sy'n defnyddio gwasanaethau rheoleiddiedig.

## ADRAN 8. CASGLIAD

### 8.1 Sut y mae pobl y mae'r cynnig yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt wedi'u cynnwys yn y gwaith o'i ddatblygu?

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 17 Awst a 7 Tachwedd 2022 i geisio barn ar y newidiadau arfaethedig fel yr amlinellir ym Mhennod 4 o’r ddogfen ymgynghori: https://www.llyw.cymru/newidiadau-arfaethedig-ir-ddeddfwriaeth-ar-ofal-cymdeithasol-gofal-iechyd-parhaus-y-gig

Gwnaethom drafod yn uniongyrchol â sefydliadau sy’n cynrychioli grwpiau y mae'r cynnig yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt. Mae'r rhain yn cynnwys y grwpiau a ganlyn:

- Darparwyr gwasanaethau a gweithwyr proffesiynol sy’n gweithio yn y sectorau gofal cymdeithasol, iechyd, yr heddlu a’r gwasanaeth prawf, addysg a gofal plant, a’u cynrychiolwyr.
- Defnyddwyr gwasanaethau gofal cymdeithasol, eu teuluoedd a’u cynrychiolwyr.
- Oedolion sy’n cael Gofal Iechyd Parhaus y GIG, eu teuluoedd a’u cynrychiolwyr.
- Arolygiaeth Gofal Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru, a’r rhai sy’n cael eu rheoleiddio ganddynt neu sy'n ymwneud â hwy.

Gellir dod o hyd i’r rhestr lawn o sefydliadau yr anfonwyd e-bost hysbysu atynt yn: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2022-09/rhestr-or-ymgyngoreion.pdf

Darparwyd gwybodaeth mewn fformatau hwylus megis crynodeb un dudalen, fideo egluro wedi'i animeiddio yn Gymraeg, Saesneg ac Iaith Arwyddion Prydain, yn ogystal â chrynodeb mewn arddull Hawdd ei Ddeall a ffurflen ymateb.

Cafodd Llywodraeth Cymru 200 o ymatebion i’r ymgynghoriad.

### 8.2 Beth yw'r effeithiau cadarnhaol a negyddol mwyaf arwyddocaol?

Nodi gwasanaethau sy'n gweithredu heb gofrestru

Bydd y diwygiadau hyn yn cryfhau pwerau Gweinidogion Cymru (AGC) i'w gwneud yn ofynnol i wybodaeth gael ei darparu gan unigolion sy’n gweithredu gwasanaeth rheoleiddiedig heb gofrestru. Er bod AGC eisoes yn cyflawni’r swyddogaeth hon yn ymarferol, bydd y cynigion yn adfer y sefyllfa flaenorol o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000. Bydd hyn yn helpu i ddiogelu pobl agored i niwed a allai wynebu risg yn sgil defnyddio gwasanaeth nad oes ganddo’r oruchwyliaeth neu’r mesurau angenrheidiol ar waith i sicrhau eu diogelwch a’u llesiant.

Dywedodd sawl ymatebydd i’r ymgynghoriad fod y cynnig yn ddiwygiad rhesymol i Ddeddf 2016 gan y byddai’n diogelu unigolion. Awgrymodd un ymatebydd y byddai’n atal unigolion rhag darparu gwasanaeth heb ei reoleiddio a chroesawodd un arall unrhyw gynnig i gryfhau pwerau AGC.

Cyhoeddi datganiadau blynyddol

Bydd y newid hwn yn cynnal y bwriad polisi gwreiddiol o ddarparu gwybodaeth wrthrychol a chymharol am wasanaethau rheoleiddiedig i ddinasyddion.

Bydd gosod y gofyniad i gyhoeddi datganiadau blynyddol ar ddarparwyr gwasanaethau yn arbed amser i staff AGC gan na fydd angen iddynt wirio'r datganiadau am achosion posibl o dorri diogelwch data neu wybodaeth arall nad yw efallai'n briodol ei chyhoeddi. Bydd hyn yn lleihau'r baich ar AGC yn sylweddol, gan ei galluogi i ganolbwyntio ar ei rôl graidd o reoleiddio gwasanaethau.

Y disgwyliad yw y bydd rhaid i ddarparwyr gwasanaethau gyhoeddi eu datganiadau blynyddol ar eu gwefannau eu hunain. Er bod darparwyr gwasanaethau eisoes yn ymwneud ag AGC ar-lein (er enghraifft, er mwyn cyflwyno'u datganiadau blynyddol a chofrestru'u gwasanaethau), ceir risg na fydd gan bob darparwr ei wefan ei hun. Nid oes gennym ddata ynglŷn â hyn. O dan yr amgylchiadau hyn, mae'n bosibl y byddai goblygiadau o ran costau ac amser i'r darparwyr hynny o ran creu gwefan a'i chynnal. Codwyd y mater hwn gan sawl ymatebydd yn ystod yr ymgynghoriad.

Er ein bod yn cydnabod nad oes gan y lleiafrif o ddarparwyr gwasanaeth wefan, gellir creu gwefan sylfaenol yn gyflym ac am ddim, neu am gost fach, ar lawer o blatfformau. Rydym o'r farn bod gwefan yn un o hanfodion gwasanaethau modern a bod y manteision yn uwch o lawer na'r costau. Rydym hefyd o'r farn bod digon o amser i alluogi darparwyr i greu gwefan cyn i'r gofyniad ddod i rym. Byddwn yn ystyried a fydd angen cymorth ychwanegol ar ddarparwyr i gyflawni hyn.

Canslo cofrestriad

Mae'r newidiadau a gynigir o dan y pennawd hwn yn ymwneud â diwygiadau cymharol fach a diwygiadau technegol i brosesau gwella a gorfodi AGC. Nod y newidiadau hyn yw sicrhau mwy o gysondeb yn ymarferol a dileu camau diangen mewn prosesau na ddaeth i'r amlwg nes i'r Ddeddf gael ei rhoi ar waith. Bydd y newidiadau hyn yn galluogi AGC i ymateb yn fanylach ac yn fwy hyblyg i amgylchiadau, gan arbed amser iddynt hwy ac i ddarparwyr. Mae'r cynigion yn ystyried yr hirdymor drwy sicrhau bod ein systemau ar gyfer rheoleiddio, arolygu a gwella gwasanaethau rheoleiddiedig yn hyblyg ac yn ymatebol.

**8.3 Yn sgil yr effeithiau a nodwyd, sut y bydd y cynnig:**

- **yn sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl at ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu**
- **yn osgoi, yn lleihau neu yn lliniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

Cyflwynodd Ddeddf 2016 gyfundrefn cofrestru a rheoleiddio newydd ar gyfer darparwyr gwasanaethau gofal a chymorth ("gwasanaethau rheoleiddiedig") yng Nghymru. Diwygiodd hefyd y system ar gyfer cofrestru a rheoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol.

Mae Deddf 2016 yn cyd-fynd â saith nod llesiant Llywodraeth Cymru ac mae’n berthnasol i:

- *Cymru Iachach - Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle mae modd deall dewisiadau ac ymddygiad sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol,* a
- *Cymru o gymunedau cydlynus - cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da*

Yn ystod cyfnod Bil Deddf 2016, cynhaliwyd asesiad effaith a ystyriodd sut yr oedd y Bil gwreiddiol wedi cyfrannu at amcanion llesiant Llywodraeth Cymru. Gellir dod o hyd iddo yma.

Nod y cynigion yn y Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol yw cyflawni bwriad polisi gwreiddiol agweddau ar Ddeddf 2016, datrys anghysondebau o fewn systemau sydd wedi dod yn amlwg mewn ymarfer, a/neu gynorthwyo Arolygiaeth Gofal Cymru â'i phrosesau a'i gweithgareddau rheoleiddio.

O ran lliniaru unrhyw effeithiau negyddol, megis y posibilrwydd o gostau i ddarparwyr gwasanaethau yn sgil creu gwefan i gyhoeddi eu datganiadau blynyddol, byddwn yn parhau i ymwneud â’r sector i ddeall graddau'r mater o dan sylw.

**8.4 Sut y caiff effaith y cynnig ei monitro a'i gwerthuso wrth iddo fynd rhagddo ac ar ôl iddo gael ei gwblhau?**

*Pa gynlluniau sydd ar waith i wneud gwaith adolygu a gwerthuso ôl-weithredu?*

Byddwn yn parhau i ymwneud â’r sector wrth i’r cynnig fynd rhagddo.

Rydym yn rhag-weld y bydd yr adolygiad ôl-weithredu cyntaf yn cael ei gynnal rhwng 3 a 5 mlynedd ar ôl rhoi'r Ddeddf ar waith.